
# tafod elái

CHWEFROR 2026
Rhif 404
£1



# Blwyddyn Newydd
# Dechrau newydd

Heb wneud addunedd blwyddyn newydd eto?

Darllenwch erthygl Rhodri Jones ar dudalen 7

**tafod elái**

**Swyddogion**

**Cadeirydd:** Helen Prosser

**GOLYGYDD Y MIS**
**HELEN PROSSER**

**Ysgrifennydd a Thrysorydd:**
Penri Williams

**Cysodi/ Dylunio:** Eirian Hughes

**Cyhoeddusrwydd / Hysbysebion:**
Colin Williams
029 2089 0040

Tafod Elái ar y wê
www.tafodelai.cymru

Argraffwyr
EVAN PRINT
www.evanprint.co.uk

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

(Nid yw'r safbwyntiau yn y papur o reidrwydd yn adlewyrchu barn y panel golygyddol).


Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mawrth
i gyrraedd erbyn
**20 Chwefror 2026**
at
**gol@tafodelai.cymru**

**Golygydd Mis Mawrth:**
**Eifion Glyn**


**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




# GOLYGYDDOL

**Anhygoel!** Mae hwnnw'n air sy'n cael ei ddefnyddio'n llawer rhy aml y dyddiau hyn ond yr union air i ddisgrifio cyfraniad Penri Williams. Cyhoeddwyd 403 o rifynnau o Tafod Elái gan Penri ac felly mae'n llwyr haeddu seibiant. Mae ein dyled i Penri am ei ymroddiad, ei ddyfalbarhad a'i broffesiynoldeb yn enfawr. Diolch yn fawr! Mae gennym fel criw newydd esgidiau mawr i'w llenwi ac mae'n mynd i gymryd deg ohonom i geisio eu llenwi. Ie, bydd golygydd gwahanol am bob un o'r deg rhifyn a gyhoeddir eleni. Eirian Hughes fydd yr angor wrth iddi hi ymgymryd â'r gwaith o gysodi ac fe welwch chi ei bod eisoes wedi rhoi ei stamp ei hunan ar y rhifyn cyntaf.

O ran y cynnwys, mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i glywed eich straeon chi, ein straeon ni fel cymuned. Mae'r papur yn gyfle i ddangos bwrlwm y Gymraeg yn yr ardal. Rydyn ni wedi ychwanegu dwy golofn: colofn hanes lleol a cholofn 'Pwy wyt ti'?' lle byddwn yn cyflwyno un siaradwr newydd ac un person amlwg yn ein cymuned Gymraeg bob mis – cyfle i ni ddod i adnabod ein gilydd ychydig yn well.

Er mwyn nodi cyfnod newydd yn hanes y Tafod, beth am ddod draw i Glwb y Bont, nos Fawrth Chwefror 10fed erbyn 7.30pm? Bydd croeso cynnes i bawb.



## TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

**Priodas**

Llongyfarchiadau mawr i Jac a Caitlin a briododd yn Glasgow rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Roedd Jac yn falch o wisgo cilt ac arno ddraig goch. Mae'n dda gyda fi ddweud y byddan nhw'n ymgartrefu yn Nhonyrefail. Pob dymuniad da i chi.



*Priodas Jac a Caitlin*

**Babi newydd**

Croeso cynnes iawn i Gruff Owen-Soper a anwyd i Llinos a Mathew ddydd Gwener, 11 Rhagfyr, ŵyr newydd i Ann a Jeff Owen. Pob dymuniad da i'r teulu bach, gyda Gruff ac wrth symud i dŷ newydd yn Nhonyrefail.



**Y Fari Lwyd**

Gwych oedd cael croesawu'r Fari Lwyd i'r pentref i'n diddanu cyn y Nadolig. Diolch yn fawr iawn i Steve Kiff am greu'r Fari – mae hi'n un arbennig ac mae Steve yn dweud y bydd un well byth y flwyddyn nesaf.

Yn y llun mae Angharad Spooner sy'n rhedeg y Cylch Meithrin Lleol a'i thad Martin Hembrow a Steve Kiff ei hun oedd y Fari. Roedd Angharad hefyd wedi mynd â Mari i mewn i'r ysgol Gymraeg i gwrdd â'r disgyblion.



## Apêl

***Mae angen eich cefnogaeth i barhau i gyhoeddi Tafod Elái***

***Tanysgrifiwch nawr***

***£10 drwy'r wefan***

***www.tafodelai.cymru***

***neu i'ch dosbarthwr lleol***



# O DAN YR WYNEB

**Martin Huws**

**Martin Huws sy'n holi Gwenllian Ellis, enillydd Gwobr Barn y Bobol Llyfr y Flwyddyn 2023, sy wedi cyhoeddi ei nofel gynta.**

**Beth yw eich gwaith chi?**

Marchnata yn y sector cyhoeddus.

**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**

Cyn y swydd newydd ro'n i'n marchnata yn y celfyddydau, yn Llundain. Mae'r swydd newydd mewn maes hollol wahanol felly mae'n dipyn o her! Ond dw i'n mwynhau.

**O ble rydych chi'n dod? Ble rydych chi'n byw?**

Dw i'n dod o Bwllheli ym Mhen Llŷn ond yn byw yng Nghaerdydd.


**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**

Do, mi wnes i, yn enwedig fy ngwersi llenyddiaeth. O'n i llai keen ar yr holl angst sy'n dod hefo bod yn geek yn yr ysgol uwchradd!

Llundain. Ond mi o'n i hefyd isho archwilio perthynas sy ddim yn monogamous. Mae o'n rhywbeth mae gen i ddiddordeb ynddo fo - pam dan ni'n ystyried monogami fel y norm? A mi o'n i'n gwbod 'mod i isho plethu'r ddau beth

Roedd hi'n dipyn o her - roedd sgwennu ffuglen o bosib yn un o'r petha anodda






*'Hon yw nofel gynta Gwenllian'*

**Beth yw themâu'r nofel?**

Mae Mor Hapus yn nofel am gyfeillgarwch a pherthnasau rhamantus a sut 'dan ni'n medru colli a darganfod ein hunain ynddyn nhw. Hefyd mae'n nofel am y bwlch rhwng pwy ydan ni a phwy oeddan ni'n meddwl y bydden ni. Nofel yw hi am ddisgwyliadau a siom a sut mae bywyd yn medru troi allan i fod mor wahanol i beth oeddach chi wedi ei ddychmygu... a sut mae hynny'n medru bod yn beth da.

Yn naturiol, wrth gwrs, mae'n cynnwys lot o themâu tebyg i Sgen I'm Syniad. Mae 'na lot fawr o yfad gwin, partis, secs a phenderfyniada gwirion ynddi hi ond mae'n braf nad straeon amdana i ydyn nhw'r tro hyn!

**Beth sy' bwysicach, cymeriad neu blot?**

Cymeriadau.

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?**

Pobl o bob math.

**Pa lyfrau ydych chi wedi eu sgrifennu o'r blaen?**

Sgen I'm Syniad oedd fy llyfr cynta, cyfrol hunangofiannol yn trafod fy mhrofiad o dyfu fyny yng ngogledd Cymru ac yn archwilio themâu, gan gynnwys cyfeillgarwch rhwng merched, y pwysau ar ferch ifanc, fy mherthynas hefo rhyw a hogiau, hunan-ddelwedd a gorbryder.

**O ble daeth y syniad cyn sgrifennu'r nofel? Faint o her oedd ei sgrifennu hi?**

O'n i wastad yn gwybod 'mod i eisiau sgwennu nofel oedd yn canolbwyntio ar gyfeillgarwch. O'n i isho iddi hi fod yn dw i 'di neud erioed! Mae'r syniad gen ti, mae'r cymeriadau yn dy ben ond mae eistedd lawr a sgwennu'r stori yn fater hollol wahanol.

**Ydy hi'n 'nofel feiddgar'? Ym mha ffordd?**

Mae'n debyg y bysa 'na rai yn ei galw hi'n feiddgar oherwydd y themâu a'r cynnwys.

**Beth oedd y gwahaniaeth rhwng sgrifennu'r nofel a sgrifennu'r gyfrol gynta?**

Beth oedd yn anodd am Sgen I'm Syniad oedd gorfod ailymweld a wynebu lot o ddigwyddiada drwy gwrs 'y mywyd o'n i wedi eu cuddiad. Ond roedd y stori a'r cymeriadau yno, felly o ran strwythur mi oedd yn llawer mwy syml na nofel.

**Beth sy'n gwneud stori dda?**

Mae'n debyg fod hyn yn dibynnu ar y darllenydd.

**Oes gennych chi rwtîn sgrifennu?**

Dim rwtîn, jest trio sicrhau 'mod i'n sgwennu bob dydd. A digonadd o goffi!

**Beth yw eich barn am stad y nofel yng Nghymru?**

Weithiau dw i'n teimlo'n rhwystredig, weithiau'n obeithiol. Mae nofel Gwenno Gwilym, V + Fo, yn rhoi gobaith imi.

**Ydy nofelau Cymraeg yn geidwadol? Os felly, pam? Beth yw'r ateb?**

Maen nhw'n medru bod. Dwi'n meddwl fod y Cymry'n tueddu i fod yn fwy ceidwadol eu chwaeth ond mae

parhad ar dudalen 5

## O Dan yr Wyneb (parhad)

darllenwyr, yn enwedig rhai ifanc, yn agored iawn i waith sy'n eu tywys i lefydd annisgwyl.

**Ydych chi'n awdur sy'n hoff o 'wthio'r ffiniau'? Ym mha ffordd?**

Dydw i byth yn eistedd i lawr a chychwyn darn o waith hefo'r bwriad o 'wthio ffiniau.' Dw i'n sgwennu'n onast, yn archwilio pynciau sydd ddim yn hawdd ac yn mynd i lefydd sydd yn gwneud i bobl deimlo'n anghyfforddus weithiau. Ges i lot o bobl yn fy nghyhuddo o fod yn 'rhy onast' pan gafodd Sgen I'm Syniad ei chyhoeddi ond beth ydi'r pwynt os ydy gwaith yn dweud hanner y gwir? Mae darllenwyr yn gweld trwy hynny a does 'na ddim pwynt ceisio cuddiad uanrhyw beth rhag darllenwyr.

**Pwy yw eich hoff awdur neu awduron? Pam?**

Gormod o ddewis: Sally Rooney, Claire Keegan, Bethan Gwanas, Min Jin Lee, Zadie Smith, Barbra Kingsolver, Caryl Lewis, Stephanie Meyer, Jane Austen, Donna Tartt, Chimamanda Ngozi Adichie. Mae'r rhestr yn hir.

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?**

Dos amdani!

**Beth sy' ar y gweill?**

Mae gen i syniad yn ffrwtian felly dw i'n gobeithio cychwyn nofel newydd rywbryd.

**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd**

Gwledd Eidalaidd, llwyth o salads ffres, llwyth o basta ffres a llwyth o win, yn cael eu mwynhau o amgylch bwrdd gyda theulu a ffrindiau. A tiramisu i orffen.

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**

Coginio, rhedeg, darllen, gwylio'r teledu, sgrolio ar fy ffôn.

Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781800995543&tsid=5

Mor Hapus, Gwenllian Ellis,

Gwasg y Lolfa, £11.99

# MENTER CAERDYDD

## Rachel Matthews

**Mis Chwefror**. Mae'r gwyliau hanner tymor yn prysur agosáu a staff Menter Caerdydd wrthi'n trefnu llu o weithgareddau i blant yn ystod yr wythnos. Mae manylion ein cynllun Gofal a'r sesiynau chwarae agored, rhad ac am ddim, Bwrlwm, i'w gweld yn y Dinesydd ac ar ein gwefan. Mae'r gweithgareddau ar gyfer oedolion hefyd yn parhau gyda digwyddiadau newydd yn cael eu hychwanegu yn rheolaidd. Dyma flas o rai o uchafbwyntiau'r wythnosau nesaf.

**Sgwrs y Mis**. Nos Lun, 23 Chwefror, bydd Dr Siwan Rosser o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn ein cyflwyno i'r nofel Teulu Bach Nantoer a'i hawdur Moelona. Yn enedigol o Sir Aberteifi, roedd Moelona'n athrawes yng Nghaerdydd pan luniodd y nofel hon i blant. Ei bwriad oedd cynnig stori swynol a fyddai'n denu plant Cymru i ddarllen Cymraeg. Mae'r cyflwyniad hwn yn rhan o gynllun Sgwrs y Mis ar Zoom. Croesewir cyfraniadau o £20 am holl sgyrsiau 2026 neu £5 ar gyfer sgwrs unigol.

**Clwb Oedolion** Mae ein clwb i oedolion ag anghenion ychwanegol yn cwrdd bob prynhawn Mercher yn Festri Salem, Treganna. Mae croeso mawr i aelodau newydd a chyfle i ddod â ffrind neu ofalwr gyda chi. (5.00-6.30, bob dydd Mercher. Rhad ac am ddim).

**Laffwyl**. Chapter fydd lleoliad Laffwyl gynta'r flwyddyn ar nos Iau, 26 Chwefror. Sut hwyl gaiff yr MC Aled Richards wrth drio cadw trefn ar y digrifwyr Stifyn Parri, Josh Pennar a Fflur Pierce? Mae tocynnau ar gael am £10 ar y wefan neu £12 wrth y drws.

**Gŵyl Dewi**. Bydd Menter Caerdydd yn rhan o ddathliadau Gŵyl Dewi ynghanol y ddinas ar ddydd Sul, 1 Mawrth. Cynhelir gweithgareddau amrywiol i'r teulu cyfan gan gynnwys sesiynau chwarae rhad ac am ddim yn ardal BWRLWM yng nghanolfan Dewi Sant, yn ogystal â digwyddiadau cerddorol a thaith chwedlau'r Mabinogi.

**Mewn Tiwn**. Bydd y dathliadau Gŵyl Dewi yn parhau bore Llun, 2 Mawrth yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina gyda chyngerdd yng nghwmni CANNA Duo. Mae'r cyngerdd yn rhad ac am ddim, ond croesewir cyfraniadau ar y diwrnod. Dewch yn gynnar i fwynhau paned a sgwrs o flaen llaw.

**Gwanwyn y Beirdd** I ddod â'r dathliadau Gŵyl Dewi i ben, ymunwch â Bethan Mair nos Lun, 2 Mawrth ar Zoom ar gyfer sesiwn Gwanwyn y Beirdd. Cawn gyfle i edrych ymlaen at ddyfodiad y gwanwyn yng ngeiriau rhai o feirdd gorau'r 20fed ganrif gan ddathlu Cymru a Chymreictod. Bydd recordiad o'r sgwrs ar gael felly os na allwch fynychu'r sesiwn fyw, mae dal croeso i chi gofrestru. (7.30yh - £5)

**Grwpiau sgwrsio**. Nodwch y dyddiadau ar gyfer ein grwpiau sgwrsio yn y gymuned ar gyfer mis Chwefror. Mae croeso i bawb sy'n siarad Cymraeg beth bynnag eich lefel.

Hyb Llaneirwg – bob yn ail fore Mawrth am 10.30 – 10 + 24 Chwefror

Hyb Radyr – bob yn ail brynhawn Mercher am 2.00 – 11 + 25 Chwefror

Hyb Rhydypennau – bob yn ail fore Iau am 10.30 – 12 + 26 Chwefror

Hyb Rhiwbeina – bore Gwener am 10.30 (Mynediad a Sylfaen) 6 + 27 Chwefror (dim sesiwn yn ystod hanner tymor)

Gwefan: mentercaerdydd.cymru

Facebook: @m.caerdydd

Instagram: @mentercaerdydd

E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru

029 2068 9888

# EFAIL ISAF

**Gohebydd Lleol:**
**Geraint Rees**
geraintrees@hotmail.com

Mae Efail Isaf wedi bod yn ferw o weithgareddau Cymraeg dros y mis diwethaf, gyda nifer ohonyn nhw'n datblygu i fod yn draddodiadau blynyddol. Gyda chwarter y pentref yn siarad Cymraeg erbyn hyn mae gweld y pontio rhwng y capel a'r pentref yn galondid.



*Y CRIW CALENNIG*

**LLUSERNAU A CHAROLAU**

Yng nghanol mis Rhagfyr, cynhaliodd Heledd Hughes, gweithiwr Cymuned a Ieuenctid y Tabernacl weithdy gwneud llusernau gyda'r bwriad o'u defnyddio rhai dyddiau'n ddiweddarach i fynd i ganu carolau o amgylch y pentref i godi arian at elusen leol. Roedd noson y creu a noson y canu yn ddau lwyddiant ysgubol. Diolch Heledd.

**LLONGYFARCHIADAU i STEFFAN EMANUEL**

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhai cyffrous i deulu Emanuel Heol y Parc. Y cyffro diweddaraf yw i Steffan (y brawd ar y chwith) gael ei ddewis yn gyd-gapten Cymru dan 20 oed ar gyfer pencampwriaeth y 6 gwlad. Dymunwn yn dda iddo fe ac i'r teulu cyfan ar eu teithiau Ewropeaidd!



*STEFFAN EMANUEL*

**DATHLIADAU'R NADOLIG**

Gyda'r Nadolig wrth y drws roedd cyfres o weithgareddau arall i bob oed yn y Tabernacl. Gyda'r cast arferol o fugeiliaid, doethion ac angylion cafwyd dathliad yr Ysgol Sul a'r Twmiaid, a phlygain noswyl y Nadolig. Mae diaspora'r pentref a'r capel yn byw ym mhedwar ban byd, ac roedd hi'n braf gallu eu croesawu nhw'n ôl o Nigeria, China a'r Unol Daleithiau ar noswyl y Nadolig. Diolch i Lyn West, Heulyn a Margaret Copley am lywyddu yn y fath fodd i roi croeso arbennig i ffrindiau o bob iaith brofi oedfa werinol Gymreig, gyda'r holl bartion ac unawdwyr oedd wedi paratoi mor ofalus ar gyfer y dathliad. Roedd y capel dan ei sang, gyda rhai yn gorfod sefyll o achos prinder lle.

**CWIS CALAN ALUN WYN BEVAN**

Ydy dwy flynedd yn ddigon i alw rhywbeth yn draddodiad? Diolch i Alun, mae'r cwis yn y Carpenters yn y cyfnod tawel hwnnw rhwng y Nadolig a'r calan yn slot braf yn nyddiadur nifer fawr o bobl. Lle da i gasglu am noson hwyliog yn y Gymraeg a gobeithiwn weld hwn yn troi'n achlysur blynyddol i'r dyfodol.

**DYDD CALAN YN EFAIL ISAF**

Codwyd calennig gwerth £218 tuag at Elusen Cancr Gareth Edwards gan y criw aeth o amgylch y pentref i gyfarch y flwyddyn newydd. Diolch i Gwion ac Amanda am roi trefn ar y cyfan.



# CAPEL BETHLEHEM

## Gwaelod-y-Garth

**Gohebydd Lleol:**
**Rhodri Jones**
rhodrigj@btinternet.com



Bydd y flwyddyn newydd yma wedi hen ennill ei phlwyf erbyn i'r rhifyn hwn o'r Tafod ymddangos, er y gwyddom y bydd peth o'i hôl wedi ei adael mewn sawl cartref a llan, a'r bylchau rheini yn pwyso'n drwm ar deulu a chyfeillion.

Mae cymeryd cilwg yn ôl, a chasglu a chymharu ystadegau, yn anorfod ar ddechrau tymor, ac un o'r rhai mwyaf trawiadol i mi ddod ar eu traws oedd yr isod oddi wrth y Swyddfa Dywydd.

Wyddech chi fod 2025 yn drydydd ar restr blynyddoedd cynhesaf ein byd, a hynny ers dechrau cyfres o gofnodion o'r fath yn 1850?

Mae'r gwyddonwyr sy'n trafod y maes arbennig yma'n adrodd bod y canlyniadau yma'n cydymffurfio â'u darogan hwythau o'r hyn sy'n digwydd i'n byd ar hyn o bryd.

Allyriadau nwyon "tŷ gwydr" sydd yn gyfrifol am y cynnydd yn y tymheredd, meddent, a byddai gostwng yr allyriadau yn llesol i'n byd.

A ninnau fel deiliaid sydd â'r cyfrifoldeb o newid pethau!

Bydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn rhoi cymorth i ni ystyried ein cyfrifoldebau fel unigolion a chymdeithas trwy nodi 2026 fel "Blwyddyn yr Amgylchedd".



PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Blwyddyn Newydd

Ymgyrch y Pum Peth Personol – gwneud gwahaniaeth

PUM PETH PERSONOL

Cafwyd rhagflas o'r ymgyrch ar dudalen flaen rhifyn cyntaf o'r flwyddyn newydd o "Y Tyst", a bydd pecyn gwybodaeth yn cyrraedd pob capel.

A'r "Pum Peth Personol" - Dillad / Bwyd / Teithio / Ynni/ Gofal.

Ac fel y nodir yn "Y Tyst", y dewisiadau gwahanol a wneir gennym yn ddyddiol fydd asgwrn cefn yr ymgyrch yma, gan ein gwahodd i ystyried "ein cymhellion wrth wneud y dewisiadau hyn". Nid "beth sy'n rhoi'r pleser mwya' i mi" neu "beth sy'n fwyaf cyfleus i ni", ond yn hytrach "edrych ar y darlun ehangach ac ystyried beth allai fod yn llesol i eraill ac i'n byd" – ie, "rhoi lles pobl eraill o flaen ein cyfleustra a'n cysur ein hunain, fel ein bod yn ymrwymo o'r newydd i garu ein cymydog fel ni ein hunain".

"Efallai bod newid rhywfaint ar ein dewisiadau siopa, osgoi prynu dillad newydd, neu droi tymheredd y gwres i lawr un radd yn ymddangos yn bethau digon bach a dibwys" medd Dr Fiona Gannon yn yr erthygl, "ond y gwir amdani yw bod pob dewis gofalgar yn cyfri, ac maen nhw'n gallu datblygu a lluosogi fel ein bod ni'n raddol yn newid ein meddylfryd, ac yn awtomatig yn meddwl am eraill yn hytrach na gwneud penderfyniadau dim ond er ein lles ein hunain"

Mae'n fwriad canol-bwyntio ar un o'r "Pum Peth Personol" bob yn ddeufis yn ystod y flwyddyn, ac mae fideos byr wedi eu paratoi i gyd-fynd â'r ymgyrch, wedi eu lleisio gan blant – gan ofyn y cwestiwn "Wyt ti'n barod i dderbyn yr her?"

Ai dyna'r adduned blwyddyn newydd y byddwn i gyd yn barod i'w chadw yn 2026?

### Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m.):

**Mis Chwefror 2026:**

1 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
8 – Oedfa dan ofal Sian Meinir
15 – Oedfa dan ofal Allan Cook [Dim YS]
22 – Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys

**Mis Mawrth:**

1 – Oedfa Gŵyl Dewi yr Ysgol Sul
8 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
15 – Sul y Cyfundeb (manylion i ddilyn)
22 – Oedfa dan ofal y Parchedig Aled Edwards
29 – Oedfa dan ofal Cymdeithas Bethlehem




# William Edwards

## 1719-1789

**Colofn newydd reolaidd fydd colofn hanes lleol, lle bydd arbenigwr lleol yn rhannu hanes o ddiddordeb penodol i ni yn yr ardal. Diolch yn fawr iawn i Wil Morus Jones am lunio'r erthygl gyntaf.**


*William Edwards*

Mae un o adeileddau mwyaf eiconig Cymru yn perthyn i ni yma ym Mhontypridd, sef Yr Hen Bont. Cyn ei hadeiladu ym 1756 roedd un bont o goed yn bodoli yn yr ardal sef, Pont yr Hesg a ddefnyddid bennaf gan bererinion ar eu ffordd o'r dwyrain i Ffynnon Fair, Pen-rhys. Un o broblemau mawr yr ardal oedd y ffermwyr yn gorfod croesi trwy ddŵr yr afon gyda'u hanifeiliaid i Ffair Llantrisant i werthu a phrynu. Un o'r ffermwyr a foddwyd wrth geisio croesi oedd Edward David, Bryn Tail, Eglwysilan sef Tad William Edwards. Dim ond dyflwydd oed oedd William ar y pryd. Bu hyn yn archoll ym mywyd ei deulu, ac yn ei arddegau dechreuodd gymryd diddordeb mawr wrth astudio adeiladwaith Castell Caerffili. Mewn dim o amser dechreuodd godi cloddiau sych ar gyfer ffermydd lleol a dysgu am adeiladwaith o bob math. O dipyn i beth daeth William yn adnabyddus yn yr ardal am ei waith, a mawr fu'r galw am ei arbenigedd.

Yn ystod y cyfnod hwn dylanwadwyd ar William gan genhadaeth yr efengylwr a'r anghydffurfiwr Hywel Harris, a'i ordeiniodd yn weinidog capel cyntaf y Methodistiaid yng Ngroes-wen. Yn ystod y cyfnod hwn gofynnwyd iddo ymgymryd â sialens fwyaf ei fywyd, sef adeiladu pont dros y Taf nepell o hen Bont yr Hesg.

Derbyniodd William £500 ym 1740 gan Gantref Meisgyn a Chaerffili i ymgymryd â'r dasg. Y prawf oedd i'r bont barhau'n gadarn am saith mlynedd. Aethpwyd ati i godi pont ac iddi ddwy golofn yn y dŵr a thair bwa. Yn anffodus, ar ôl pedair blynedd bu storm enbyd gyda degau o goed a malurion yn plymio i'r afon, ac wrth i'r dŵr garw eu cludo fe darwyd colofnau'r bont a'u dymchwel. Trueni mawr oedd hyn oherwydd yr enw newydd a roddwyd i'r ardal, sef Pont-y-tŷ-pridd.

Yr ail gynllun oedd codi pont ac iddi un bwa dros yr afon, ond ar sawl cynnig, aflwyddiannus fu'r ymdrech. Felly, wrth ystyried y trydydd cynllun, y penderfyniad oedd ysgafnhau'r ochrau gyda thri geuedd bob ochr, ac yn wir bu hynny'n llwyddiant ysgubol ym 1756 er y gost sylweddol ychwanegol o filoedd o bunnau. Tyrrodd sawl artist byd-enwog yma i arlunio'r strwythur hynod. Sylw William ar ôl y llwyddiant oedd iddo lwyddo i adeiladu pont o un ochr i'r Taf i'r llall a rhwng y ddaear a'r nefoedd. Llwyddodd William a'i feibion yn ddiweddarach i adeiladu pontydd eraill o bwys mewn mannau yng Nghymru a phellach. Bu farw'n saithdeg oed ac fe'i claddwyd ym mynwent Sant Ilan a rhoddwyd iddo gofeb wrth ddrws yr eglwys.

Tri Chynnig i Gymro!

# Côr Tônteg

## Blwyddyn newydd, cyfle a phrofiadau newydd !

Sefydlwyd Côr Tônteg yn Rhondda Cynon Taf ym Mis Medi 2022 o dan arweiniad yr amryddawn, Gavin Ashcroft. Mae'r côr yn canu ystod o 'genres' cerddorol yn cynnwys clasurol, gwerin a phop ond efallai taw fel Côr Cerdd Dant i Fenywod yr adnabyddir y Côr erbyn hyn ar ôl llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 lle enillwyd y drydedd wobr, a'r ail wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn 2025. Mae'r côr hefyd wedi cael llwyddiant mewn eisteddfodau lleol gan gynnwys y wobr gyntaf am Gôr Cerdd Dant yn Eisteddfod Pontypridd yn 2025.

Meddai Ann , un o aelodau'r côr: "ymaelodi gyda Chôr Tônteg yw un o'r pethau gorau rwy erioed wedi neud. Roeddwn i heb ganu mewn côr ers gadael yr ysgol a heb ganu Cerdd Dant erioed. Trwy'r côr, rwy wedi darganfod ffordd i ymlacio ac wedi gwneud ffrindiau newydd arbennig. Mae pawb mor gyfeillgar ac rydym yn cael lot o sbort!. Mae rhai'n meddwl bod angen gallu darllen cerddoriaeth - dydw i ddim a dyw e ddim wedi effeithio ar fy ngallu i ganu gyda'r côr".

Mae'r Côr yn bwiadu cystadlu eleni mewn eisteddfodau lleol ac wrth gwrs yn Eisteddfod y Garreg Las yn Awst 2025.

Nododd Gavin Ashcroft "Dechreuais y Côr oherwydd roeddwn yn ymwybodol nad oedd yna Gôr Cerdd Dant i fenywod yn Rhondda Cynon Taf. Roedd yn bwysig i fi ein bod yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol RhCT yn 2024.

Er ein bod yn gôr cymharol ifanc, rydym wedi profi tipyn o lwyddiant ac wedi cael lot o sbri yn yr ymarferion. Mae ryw 60 o aelodau sy'n dod yn gyson, Mae'r cysondeb yn bwysig er mwyn datblygu'n lleisiau a'n sain. "

Mae'r côr yn croesawu aelodau newydd. Does dim clyweliadau. Os ydych ag awydd ymuno, dewch draw i Ganolfan Gydol Oes, Gartholwg ar nos Lun (tymor ysgol yn unig) am 7.30. Cewch groeso mawr.

# PENTYRCH

**Gohebydd y Mis:**
**Penri Williams**
penri@hendre.cymru

**Colli Eirlys**

Bu farw Eirlys Davies, yn 93 oed, ddechrau mis Rhagfyr. Fe'i magwyd yn Llundain gan dreulio cyfnod y rhyfel yn efaciwî yng Ngheredigion. Magodd dri o blant, Rhys, Bryn a Rhian, ond collodd ei gŵr cyntaf pan oedd y plant yn ifanc. Yna priododd Cerith Davies, o Gwmllynfell, a oedd yn athro ac yn rhan o fwrlwm Cymry Llundain. Wedi ymddeol, penderfynodd y ddau wneud y cam mawr o symud i fyw i Gymru a dewis Pentyrch yn gartref.

Yn fuan daeth y ddau yn rhan o fwrlwm yr ardal gan ymuno â Chôr Godre'r Garth a Chlwb y Dwrlyn. Roeddent ymhlith aelodau cyntaf Côr Hen Nodiant. Bu Eirlys yn Gadeirydd Cangen y Garth o Ferched y Wawr ac yn Ddiacon ym Methlehem, Gwaelod y Garth. Roedd bob amser yn barod i gymryd rhan mewn dramâu a gwasanaethau'r capel ac yn un o griw brwdfrydig o ferched oedd yn troedio'r Garth yn gyson. Roedd ganddi ddiddordeb ym mhawb ac yn barod â'i gwên. Symudodd y ddau i fyw i Danescourt ond parhaodd eu cysylltiad â gweithgareddau'r ardal.

Roedd Amlosgfa Thornhill yn llawn ar gyfer yr angladd yng ngofal Delwyn Sion ar Ionawr 5ed. Talwyd teyrngedau teimladwy iddi gan Rhys, Bryn a Rhian. Cydymdeimlwn â Cerith a'r teulu yn eu colled.



*Eirlys Davies*

**Symud Cartref**

Ganol mis Rhagfyr symudodd Cyril a Margaret Hughes o Faes y Sarn i Landaf. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd.

**Albwm Newydd Catrin Finch**

Cyhoeddir albwm newydd y delynores Catrin Finch ddiwedd mis Chwefror, ei halbwm unigol cyntaf o gyfansoddiadau gwreiddiol mewn dros ddeng mlynedd. Mae'n cynnwys cyfres o ddarnau wedi eu hysgrifennu i Katy, sef Catrin Finch yn 13 oed, a bydd llythyr yn cyd-fynd â phob trac. Mae'n albwm am ei thaith gerddorol a'i bywyd, ac am gael y dewrder i fod yn chi'ch hun.

Bydd perfformiad o'r albwm yn Acapela ar Fawrth 1af.

**Brysiwch Wella**


Dymuniadau gorau i John Ifans, Radur, sydd allan o'r ysbyty ac yn gwella ar ôl cael pen-glin newydd.

**Clwb y Dwrlyn**

Bydd y cyfarfod nesaf am 8yh nos Iau, Chwefror 19, yng Nghlwb Rygbi Pentyrch a bydd aelodau yn sôn am eu 'Milltir Sgwâr' neu 'Fy Hoff Drysor'.

**Cydymdeimlo**

Ganol mis Ionawr bu farw Ken Evans, Maes y Sarn, yn 85 mlwydd oed. Yn frodor o Sir Gaerfyrddin, bu'n gweithio ym myd addysg ac roedd ymhlith swyddogion cyntaf Clwb y Dwrlyn. Cydymdeimlwn a'i wraig, Judith, a'i fab, Alun, a'r teulu yn eu colled. Bydd teyrnged yn y rhifyn nesaf.



# Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

**Dathliadau'r Nadolig**

Bu holl blant yr ysgol yn hynod o brysur fis Rhagfyr wrth baratoi a pherfformio sioeau Nadolig a chynnal partïon i ddathlu hefyd.

Hyfryd oedd gweld disgyblion y dosbarth Meithrin yn perfformio ar y llwyfan am y tro cyntaf ac roedd yr athrawon i gyd yn falch iawn o bob un ohonynt yn dysgu cymaint o ganeuon Cymraeg newydd.

Bu'r plant Derbyn yn canu ac actio stori'r Nadolig yn wych yn eu sioe nhw hefyd.

"Y Goeden Fach Hardd" oedd teitl sioe Blwyddyn 1 a 2, stori am goeden yn chwilio am addurniadau er mwyn edrych yn hardd, ond sydd yn dysgu am wir ystyr y Nadolig ar hyd y ffordd.

Cafodd Blwyddyn 3 a 4 hwyl wrth ailadrodd stori'r Nadolig trwy ganu a pherfformio stori'r geni ac fe ddangosodd Blwyddyn 5 a 6 sut mae dathliadau'r Nadolig wedi newid dros amser.



*Blwyddyn 6 yn mwynhau rygbi tag*

**Chwaraeon**

Daeth Oliver o Undeb Rygbi Cymru i gynnal sesiwn rygbi 'tag' gyda disgyblion blwyddyn 6. Roedd y disgyblion wir wedi mwynhau ac yn edrych ymlaen at weddill y sesiynau dros gyfnod o chwe wythnos.



*Sioe Nadolig Blwyddyn 3 a 4*

## Ddim yn berchen ar statws ‘trysor cenedlaethol’ mwyach?

Faint o roliau selsig fwytoch chi dros yr ŵyl? Efallai eich bod wedi gweld rhaglen ddiweddar S4C am yr enwog Edwards o Gonwy lle cyfaddefodd y perchennog, Ieuan Edwards, mai’r ‘gwerthwr gorau’ yn eu siop yw eu rholiau selsig, gan werthu 1500 yr wythnos. Mae cwmni Greggs yn gwerthu 2.5 miliwn yr wythnos. Fodd bynnag, er bod y rholiau selsig yn parhau i fod yn fyrbryd Prydeinig hynod boblogaidd, mae erthygl ddiweddar yn The Guardian (‘UK’s love of sausage rolls may be cooling’) yn awgrymu y gallai goruchafiaeth Greggs fod yn lleihau.

Rhoddodd y ddau gyfeiriad at y rholyn selsig syniad am erthygl! Felly, gwnes i ymchwil i pam mae'r byrbryd crwst sawrus hwn wedi dod yn rhan o’n diet ym Mhrydain. Er bod yr union darddiad ychydig yn aneglur, mae rhai haneswyr bwyd yn credu eu bod wedi esblygu o grwst Ffrengig o'r enw "pate ên croûte," sy'n dyddio'n ôl i'r 13eg ganrif ac eraill yn awgrymu cysylltiad â'r "kotopita" Groegaidd hynafol, math o bastai cyw iâr. Fodd bynnag, tarddodd y Rholyn Selsig modern yn Llundain yn y 19eg ganrif. Roedd Llundain yn trawsnewid yn ganolfan diwydiant a masnach, yn llawn gweithwyr ffatrïoedd a dociau oedd angen prydau bwyd cyfleus a fforddiadwy. Yn anffodus, oherwydd bod cynhyrchion cig wedi'u prosesu fel selsig a phasteiod yn "ddi-ffws" ac yn cael eu cynhyrchu ar raddfa fawr, roedd rholiau selsig yn darparu cyfleoedd hawdd i gynhyrchwyr diegwyddor guddio'r defnydd o gig pydredig, offal, neu hyd yn oed fara wedi'i socian mewn ocr coch (ocsid haearn) yn eu llenwadau, gan arwain at eu galw'n "bagiau




dirgelwch". Yn y pen draw, arweiniodd yr arfer eang hwn at y deddfau diogelwch bwyd cyntaf.

Erbyn diwedd y 19eg ganrif daeth crwst pwff yn fwy poblogaidd na chrwst brau. Cyhoeddodd yr enwog Mrs. Beeton rysáit ar gyfer rholiau selsig yn ei Llyfr Rheolaeth Cartrefi ym 1861, sy'n edrych yn debyg iawn i'r ryseitiau a ddefnyddir heddiw. Yn ôl canllawiau y WI, dim ond rholiau selsig wedi'u gwneud â chrwst fflawiog neu bwff ddylai gael sêm ar yr ochr, fel arall dylai’r sêm fod o dan y rholyn (gwybodaeth ddefnyddiol rhag ofn eich bod am gystadlu mewn sioe leol!).

Nawr am ychydig o wybodaeth ddi-bwys. Wyddoch chi fod opereta ‘The Grand Duke’ gan Gilbert a Sullivan yn cynnwys rholiau selsig fel dyfais plot, lle mae cynllwynwyr yn adnabod ei gilydd trwy fwyta rholiau selsig? Cafodd y ddeuawd gomedi ar-lein LadBaby sawl cân Nadoligaidd boblogaidd lle cafodd geiriau o ganeuon gwreiddiol eu hailysgrifennu i gyfeirio at roliau selsig. Datgelwyd gwaith cwyr o rolyn selsig Greggs yn Madame Tussauds Llundain ym mis Mehefin 2025 fel gosodiad dros dro ochr yn ochr ag eiconau eraill, gan arddangos ei statws fel "trysor cenedlaethol".



Erbyn hyn mae amrywiaeth helaeth o gynhwysion yn cael eu cynnig ar gyfer eu hychwanegu at y porc traddodiadol ddefnyddir ar gyfer y rholiau, gan gynnwys pwdin du, hagis, chorizo nduja sbeislyd a hyd yn oed prŵns wedi'u socian mewn brandi. Mae yna lu o lenwadau llysieuol hefyd fel madarch, corbys, ffa coch, cnau castan, llugaeron, caws, Marmite, cennin, perlysiau a sbeisys.

Felly, a yw'r rholyn selsig yn dal i fod yn drysor cenedlaethol? Er bod symudiad wedi bod tuag at opsiynau byrbrydau iachach, a gostyngiad yng ngwerth cyfranddaliadau Greggs, mae'n ymddangos bod y rholyn selsig yn ei wahanol ffurfiau yn parhau i fod yn brif fwyd Prydeinig gyda thua 800,000 yn cael eu gwerthu bob dydd. Ond, a yw'n iawn i alw fersiwn llysieuol yn 'rholyn selsig' - dyna'r ddadl yn ein cartref bob Nadolig, gan arwain at orfod paratoi'r ddau fersiwn i blesio pawb!

# Cylch Cinio Caerdydd.

A hithau'n fis Chwefror, mae'r Nadolig yn swnio'n bell yn ôl i rai ohonom, siŵr o fod. Ond i aelodau Cylch Cinio Caerdydd, erys un noson yn nechrau Rhagfyr yn fyw iawn yn y cof. Roedd hwn yn gyfarfod unigryw am y rheswm mai dyma'r tro cyntaf i'r gwesteion arbennig gynnal noson gyda'i gilydd. Er bod Huw Foulkes a Ruth Erin Roberts wedi ymddangos ar lwyfannau ledled Cymru mewn corau a phartïon gwahanol, dyma eu hymddangosiad cyntaf i gynnal noson fel deuawd.

Wrth eu cyflwyno, cyfeiriodd y Cadeirydd, Carys Tudor Williams, at y tebygrwydd yng nghefndir y ddau. Bu eisteddfota a chynnal cyngherddau yn rhan allweddol o'u magwraeth, a'r ddau, yn eu gwahanol gylchoedd, yn enwau cyfarwydd am eu llwyddiant ym myd cerdd dant ac alawon gwerin mewn eisteddfodau bach a mawr.

Dewisodd y ddau fynd i'r Brifysgol yng Nghaerdydd a dilyn cwrs newyddiaduraeth fel rhan o'u gradd. Aeth Huw ati i sefydlu Côr Aelwyd y Waun Ddyfal, ac ef oedd yr arweinydd cyntaf. Yn nes ymlaen, daeth Ruth hithau yn arweinydd ar yr un côr, cyn iddyn nhw symud ymlaen i fod yn aelodau blaenllaw o Gôrdydd.

Erbyn hyn, Huw yw Prif Olygydd Newyddion S4C, ac mae Ruth Erin hefyd yn mwynhau gyrfa lwyddiannus fel newyddiadurwr yn y BBC. Yr hyn a gawsom yn eu cwmni oedd ychydig o sgwrsio cynnes a diymhongar gan y ddau yn eu tro yn sôn am y dylanwadau a fu arnyn nhw. Cawsom y pleser o fwynhau detholiad o ganeuon a charolau Nadoligaidd gan Ruth fel unawdydd, a'i dewis yn deyrnged i'w magwraeth a'i chynhysgaeth.



*Ruth Roberts a Huw Foulkes gyda Carys Tudor Williams, (Cadeirydd y Cylch Cinio.)*

## DATHLIAD ARBENNIG

Mae Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 75 oed eleni. I nodi'r achlysur, cynhelir cinio Nos Lun, Mawrth 9fed, yng ngwesty'r New House. Bydd adloniant wrth gyrraedd ac, wedi'r pryd, cawn ein diddanu gydag ychydig hanesion am y Cylch Cinio gan Keith Bush, Prif Gwnselydd Cyfreithiol ein Cynulliad rhwng 2007 a 2012.

Dewch i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant a'n parti pen-blwydd. Os ydych eisoes ar ein rhestr aelodau, fe gewch yr holl fanylion yn y dull arferol. Pe hoffai unrhyw gyn-aelod neu rywun o'r newydd ymuno â ni, anfonwch nodyn at Paul Morgan gan ddefnyddio'r cyfeiriad cylch.cinio@gmail.com

### Ti'n ddysgwr

Ti'n ddysgwr
Maen nhw'n dweud, yn gwenu.
Rwy'n llyncu fy anadl
Shame - cywilydd
Sadness - tristwch
Inferiority - israddoldeb
Anger - dicter
Nhw, yn lwcus, magwyd nhw yn yr iaith neu anfonwyd nhw i ysgol Gymraeg
yn gyfforddus mewn dwy iaith.
Fi, menyw y cymoedd,
wyres i Gymry, glowyr, mams o Godreaman, ffermwyr y bryniau.
Eu iaith ar goll
mewn un genhedlaeth, neu ddwy.
Penderfynol o hawlio yn ôl
yr heniaith.
Bron yn rhugl
dim cweit.
Teimlo ddim yn falch ond
Apologetic
Defensive
Small

**"Dysgwraig"**

## Clwb y Dwrlyn

**"Fy Milltir Sgwâr"**
**a**
**"Fy Hoff Drysor"**

**8yh, Nos Iau**
**19 Chwefror 2026**
Clwb Rygbi Pentyrch

Mynediad drwy Aelodaeth £15
neu £5 i ymwelwyr
**Manylion pellach:**
clwbydwrlyn@pentyrch.cymru



# Pwy wyt ti?



Jayne Rees

## Jayne Rees

### Cyflwyna dy hun mewn 5 brawddeg

Yn wreiddiol o Abertawe rwy wedi byw  yn Graigwen, Pontypridd ers 41 o flynyddoedd.

Gallaf dreulio oriau pleserus yn gwylio cwisiau ar y teledu, gwneud posau, croeseiriau a jig-sos!

Rwy'n dilyn traddodiad teuluol corawl wrth fod yn aelod o Gôr Godre'r Garth - roedd dad yn denor gyda Chôr Meibion Dyfnant a mam-gu yn gontralto gyda chôr o Lanelli a aeth i America yn 1909 am bedwar mis a chanu yn y Tŷ Gwyn i'r Arlywydd Taft.

'Sdim byd yn rhoi mwy o fwynhad i fi na threulio amser yn yr ardd, yn enwedig ar ôl ymddeol o yrfa hir o ddysgu.

Rwy'n llysieuwraig ers 48 o flynyddoedd ac yn addas roedd gen i fam-gu o'r enw Lettice!

**Ble a sut wyt ti'n defnyddio dy Gymraeg yn yr ardal?**

Mae bod yn aelod o'r canlynol yn sicrhau mod i'n defnyddio'r Gymraeg yn wythnosol, os nad yn ddyddiol  - Clwb y Bont, Merched y Wawr, Côr Godre'r Garth, Clwb Llyfrau, ioga, Pilates a sesiynau siaradwyr newydd. Heb anghofio am siarad â ffrindie wrth gwrs!

**A ble arall fydd pobl yn ffeindio Jayne Rees yn yr ardal?**

Rwy wrth fy modd yn cerdded ym Mharc Ynysangharad yn wythnosol ond yn achlysurol yn mwynhau'r sialens o wac heriol.

Rwy'n ymwelydd cyson â'r Llyfrgell a'r awdur sy wedi plesio yn ddiweddar yw Rhys Dylan a'i nofelau am y ditectif Evan Warlow.

'Sdim byd gwell na chwrdd â ffrind am goffi – weithiau yn Zucco yn y dre lle mae'r perchennog wrth ei fodd yn ymarfer ei Gymraeg!

**Pa gyngor faset ti'n ei roi i siaradwyr Cymraeg newydd yn yr ardal?**

Ymunwch â chlwb, côr neu gymdeithas lle bydd cyfle i fagu hyder wrth ymarfer siarad Cymraeg yn anffurfiol. Fe fydd croeso mawr yn eich disgwyl!

## NOS YSTWYLL: DIWEDD CYFNOD 'Y GWYLIAU'

**Allan James**

Mae'n eironig fy mod wrthi'n llunio'r cyfraniad ar gyfer Tafod Elái ar Ionawr y 6ed, sef Gŵyl Ystwyll.

Dros y blynyddoedd bu cryn drafod ar yr arferion a gysylltid gynt â chyfnod y Nadolig, y toriad hwnnw yn y flwyddyn amaethyddol ganol gaeaf a elwid yn gyfnod 'Y Gwyliau'. Mewn ambell ardal gwledig byddid yn symud yr aradr i'r ffermdy, ei glanhau a'i gosod dan fwrdd y gegin yn arwydd fod gwaith yn peidio dros gyfnod y Nadolig. Byddai cyfnod 'Y Gwyliau' yn ymestyn o Noswyl y Nadolig tan Nos Ystwyll sef y chweched o Ionawr. Mae'r ŵyl a elwir yn Saesneg yn Epiphany ac yn Gymraeg yn Ystwyll yn dathlu'r cysylltiad rhwng Crist a'r doethion yn dilyn y seren. Mae'r gair Cymraeg 'Ystwyll' yn cysylltu'n uniongyrchol â manylion yr hanes – trown at wraidd y gair 'Ystwyll' sy'n deillio o'r Lladin. Pan fydd gyda chi 'e' yn y gair Lladin megis yn y gair 'cera' (wax yn Saesneg) ceir 'wy' yn Gymraeg felly 'cera' yn troi'n 'cŵyr' am fod terfyniad 'a' yn mynd. Tarddiad y gair 'Ystwyll' yw'r gair Lladin 'stella' yn golygu 'seren', 'stella' yn troi'n 'stwyll' a'r gair yn magu 'y' ar y dechrau. Gair diddorol arall sy'n dilyn yr un patrwm yw'r gair Lladin 'candela' sy'n rhoi i ni 'cannwyll' yn Gymraeg ond sy'n rhoi 'candelabra' yn Saesneg. Roedd Nos Ystwyll, felly, yn dangos yn ieithyddol y cysylltiad â hanes y doethion a'r 'seren', ond yn cyhoeddi, hefyd, ddiwedd y cyfnod a elwid yn gyfnod 'Y Gwyliau' yr adeg o'r flwyddyn a gysylltid gynt â rhaglen amrywiol o arferion tymhorol.

Bu amaethwyr yn ymwybodol o hynt y tymhorau ac o bwysigrwydd ymateb i batrymau cynhenid eu cynefin naturiol ar hyd y cenedlaethau. Wedi cyfnod o segurdod gaeafol, byddid yn dechrau rhagweld gwyrth y gwanwyn drwy gyfrwng cyfres o ddefodau penodol a fwriedid i atgyfnerthu pwerau'r byd naturiol er mwyn sicrhau, gydag amser, gynhaeaf bras a llwyddiannus. Rhan o'r broses oedd sicrhau fod y tir yn cael ei ailffrwythloni'n flynyddol, ac mewn cymdeithas gyntefig y peth naturiol oedd troi at y pwerau uwchnaturiol hynny y credid eu bod yn dylanwadu ar batrymau'r flwyddyn ac ar lwyddiant cynhaeaf a fyddai'n gwaredu'r gwerinwr rhag prinder a newyn.

Y gwir amdani yw na fyddai'r gwahanol bartïon a gadwai'r gwahanol draddodiadau'n fyw o flwyddyn i flwyddyn, megis parti'r Fari Lwyd, yn ymwybodol o'r elfennau defodol hynny a fyddai wedi bod yn gyfrifol am lunio'r cyd-destun gwreiddiol. Erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, byddai arferion yn y bôn yn dilyn patrwm oesol fel bod yr elfennau cyntefig yn aros yn rhan o batrwm hynafol y byddai'r gwerinwr yn awyddus i'w arddel a'i ddiogelu'n dymhorol reolaidd. Diogelu a pharchu etifeddiaeth oedd y nod ac ni fyddai proses o ddadansoddi a dehongli'r hyn a etifeddwyd yn rhan o'r agenda werinol.

Erbyn Nos Ystwyll byddai'n bryd rhoi'r Fari Lwyd i gadw am flwyddyn arall a symud yr aradr unwaith yn rhagor o'i chartref tymhorol dan fwrdd y gegin, ei symud o'r ffermdy i'r meysydd agored yn barod ar gyfer tymor newydd o aredig a hau.

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

**Taith yr Adran Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i Garchar Shepton Mallet**

Ar ddydd Mercher, 26ain o Dachwedd, cafodd 98 o ddysgwyr Blwyddyn 9 gyfle i ymweld â Charchar Shepton Mallet. Dysgwyd am hanes y carchar, ei rôl dros y canrifoedd, a'r straeon am y bobl a fu'n garcharorion yno. Cafwyd profiad cyffrous o gydweithio fel tîm er mwyn dianc o gell garchar drwy her Escape Room!



*Carchar Shepton Mallet*

**Noson Cantorion Ifanc y Flwyddyn**

Cafwyd noson hyfryd a safonol yn llawn talent yn ystod Noson Cantorion Ifanc y Flwyddyn ar Nos Fercher, 19eg o o Dachwedd. Roedd y perfformiadau'n amrywiol ac yn dangos safon gerddorol arbennig gan ein disgyblion. Diolch o galon i'r beirniaid, Ffion Hâf a Gareth Elis, am eu gwaith caled. Llongyfarchiadau i'r enillwyr: Elen Dafydd Roberts, Enillydd Iau, a Hannah Edwards, Enillydd Hŷn.

**Parti Bechgyn hŷn**

Cafodd parti bechgyn hŷn yr ysgol gyfle arbennig i berfformio yng nghyngerdd CF1 wrth iddynt lansio eu CD newydd. Cynhaliwyd y cyngerdd yn Eglwys Sant Teilo, Yr Eglwys Newydd, nos Wener Rhagfyr 5ed. Roedd yn brofiad anhygoel iddynt, gan roi llwyfan i arddangos eu talentau a dathlu eu gwaith caled. Canodd y côr ddwy glasur, sef O Gymru a Gwin Beaujolais, a pherfformiodd Efan Williams unawd. Ar ddiwedd y noson, cafodd y côr gyfle i gyd-ganu gyda CF1, Gwinllan a roddwyd i'm gofal.



*Bechgyn hŷn yr ysgol yn perfformio yng nghyngerdd CF1*

**Diwrnod Bugeiliol y 6ed**

Ar ddydd Iau, 15 Ionawr 2026, trefnodd y chweched dosbarth ddiwrnod arbennig wedi'i ganolbwyntio ar wleidyddiaeth.

Bwriad y digwyddiad oedd rhoi'r wybodaeth a'r hyder i'r disgyblion i gymryd rhan yn yr etholiadau ym mis Mai.

Croesawyd Josh Brisdon o'r Senedd, a roddodd fewnwelediad gwerthfawr i arwyddocâd y Senedd yng Nghymru.

Yn ogystal, rhannodd dau o'n disgyblion Blwyddyn 12, Olive Burns a Ned Dong, sy'n aelodau o'r Senedd Ieuenctid, eu profiadau.

Ymunodd cynrychiolwyr o'r Prosiect Gwleidyddiaeth—Ian Pope, Beti-Elen Thomas, a Lucas Watts—i egluro cysyniad 'Hustings'.

Yn ystod y sesiwn Hawl i Holi, mynychodd cynrychiolwyr o bedair o'r chwe phlaid uchaf eu

*parhad ar dudalen 15*

pleidleisiau yng Nghymru, a chafodd pob un bum munud i siarad â'r disgyblion. Ar ôl yr areithiau cychwynnol, cafodd y myfyrwyr gyfle i ofyn cwestiynau yn uniongyrchol i'r gwleidyddion, gan greu trafodaeth fywiog. Cafodd y digwyddiad ei gynnal gan bedwar o ddisgyblion Blwyddyn 12: Nel Tame, M Chavez-Smith, Megan Rosser, a Llewelyn Owen.

Ymhlith y rhai a fynychodd roedd Mark Drakeford (Llafur), James Hambling (Ceidwadwyr), Tessa Marshall (Plaid Werdd), a Cefin Campbell (Plaid Cymru). Roedd y diwrnod yn un addysgiadol ac ysbrydoledig, gan roi dealltwriaeth ddyfnach i'r disgyblion o fyd gwleidyddiaeth a phwysigrwydd eu cyfranogiad.



*Sesiwn "Hawl i Holi" yn Ysgol Plasmawr*

# CREIGIAU

**Gohebydd y Mis:**
**Nia Williams**
colin.williams@talktalk.net

**Merched y Wawr**
**Cyfarfod mis Rhagfyr**

Ydy, mae'r 'Dolig i'w weld sbel yn ôl erbyn hyn, a ninnau ar drothwy'r gwanwyn, ond anodd anghofio brwdfrydedd heintus Ruth Davies, Caerdydd - a ddaeth i'n rhoi ar ben ffordd o ran paratoi ar gyfer yr Ŵyl.





*Ruth Davies*

'Dyw Ruth byth yn siomi! Mewn cwta awr fe luniodd addurniadau hardd, fe'n bwydodd, fe greodd hi barseli hyfryd wrth ddefnyddio sgarffiau neu bapur brown yn unig, ac fe'n hysbrydolodd i greu! O! Do! Ac mae gennym dystiolaeth! Roedd gan Ruth dri phen i'w sgwrs daclus - tair 'A' - 'Anrhegion', 'Ailgylchu' ac 'Addurniadau'. Diolch am orig hyfryd, Ruth - bob amser yn mwynhau dy gwmni!

**Newyddion o'r Clwb Golff**

Etholwyd Jackie Burns yn Gapten y Lady Vets am eleni! Pob dymuniad da i ti ym mlwyddyn dy lywyddiaeth!

A llongyfarchiadau mawr i Siân Powell ar ennill Tlws y Llywydd am y llynedd! Gwych iawn!

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Ann Angell, Phil, Tomos a Daniel. Bu farw Mam Ann, Menna Myfanwy Williams, yn dawel jyst cyn y 'Dolig. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Ffaldybrenin, ddydd Sadwrn, y trydydd o Ionawr, gyda'r gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Eirian Wyn Lewis. Yn anfon cwtsh a chariad atoch yn eich galar.

# MENTER IAITH
## Rhondda Cynon Taf

**Cyfle Newydd i Bobl Ifanc gyda Theatr Tafod |**
Mae Theatr Tafod wedi derbyn nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn lansio cyfle cyffrous i bobl ifanc 16–24 oed sydd â diddordeb yn y celfyddydau perfformio. Os ydych chi'n mwynhau actio, symud neu ganu, neu os hoffech chi ddarganfod mwy am sgiliau cefn llwyfan, mae'r gweithdai newydd hyn wedi'u creu'n arbennig i chi.

Bydd y sesiynau cyntaf yn cael eu cynnal ar 14 a 21 Chwefror, gan gynnig cyfle unigryw i fod yn rhan o ddatblygu sioe gerdd newydd. Ynddyn nhw, cewch weithio gyda pherfformwyr profiadol mewn gweithdai actio, symud a chân—yn ogystal â dysgu sgiliau ymarferol ar gyfer y llwyfan a thu ôl i'r llenni.

Mae Theatr Tafod yn croesawu unrhyw un sydd â brwdfrydedd dros y celfyddydau, p'un ai ydych chi'n newydd i'r maes neu eisoes wedi rhoi cynnig arni. Mae croeso i chi gysylltu â j.angharad@artiscommunity.org.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi wybod mwy am sut i gymryd rhan.

**Taith Lleuwen - y bedwaredd yng nghylchdaith PYST x Mentrau Iaith**

Mae'n bleser cyhoeddi taith newydd gan Lleuwen. Mae'r daith yn rhan o brosiect ar y cyd gan PYST, Mentrau Iaith Cymru a chynllun Noson Allan Cyngor Celfyddydau Cymru.

Dyma gyfle prin i glywed Lleuwen yn perfformio set o ganeuon newydd gwreiddiol (ac ambell hen glasur!) Cymraeg, cyn iddi ddychwelyd i'r stiwdio yn ddiweddarach eleni.

Bydd y daith yn gweld Lleuwen yn ymweld â 9 o leoliadau gwahanol ledled Cymru gan gynnwys Yr Hen Lyfrgell Porth ar y 6ed o Chwefror am 6pm. Mae'r tocynnau ar gael yn y ddolen yma: https://linktr.ee/mentrauiaithpyst




Mae gyda ni fwy o bethau cyffrous ar y gweill. Am y digwyddiadau a'r newyddion diweddaraf - Dilynwch ni!

Gallwch chi danysgrifio i'n rhestr e-bost yma: www.menteriaith.cymru/tanysgrifio-subscribe

Facebook: @MenterRhCT Instagram: @menteriaithrhct

Gwefan: www.menteriaith.cymru E-bost: post@menteriaith.cymru Ffôn: 01443 407570

## O'r Gwylltio i'r Gweithredu, Y Lolfa, £12.99

### Doniau amryddawn y llenor ac ymgyrchydd Gareth Miles

Fel y dywed y golygyddion, dyw'r gyfrol deyrnged hon i Gareth Miles ddim yn gofiant nac yn astudiaeth feirniadol ond yn taflu golau ar ddoniau amryddawn llenor ac ymgyrchydd.

Yr hyn sy'n fy nharo i yw'r amrywiaeth yn y gyfrol, ysgrifau coffa aelodau ei deulu, ffrindiau, cydweithwyr a chyd-ymgyrchwyr, ysgrifau ar ei waith, detholiad o waith Gareth ei hunan a dadansoddiad o'i gyfraniad i lenyddiaeth a gwleidyddiaeth Cymru. Yn y gyfrol mae cerddi difyr Annes Glyn, Aneirin Karadog a Gwyn Thomas a llun trawiadol Anthony Evans. Amrywiaeth yw hon sy'n adlewyrchu cyfraniadau Gareth mewn sawl maes ac oherwydd hyn fe fydd mesur hyd a lled ei waddol yn her. Llongyfarchiadau i Hywel Griffiths, Siân Howys ac Angharad Tomos am gomisiynu a chasglu'r holl ddeunydd ynghyd.

Wrth ddarllen ac ailddarllen y gyfrol, un cwestiwn sy wedi codi i'r wyneb. Beth yn union oedd tacteg y Cymro arloesol hwn, un o benseiri dulliau di-drais Cymdeithas yr Iaith, yr un heriodd apartheid o oedran cynnar, gan roi persbectif byd-eang i wleidyddiaeth y genedl fach hon?

Fe gawn gliw yn y broliant: 'Fedrwch chi ddim darllen gwaith Gareth Miles heb ymateb iddo - naill ai drwy anghytuno'n chwyrn neu gael eich tanio. Holl fyrdwn ei waith oedd peri i'w ddarllenwyr deimlo'n anghyfforddus ac ansicr; siglo'r sylfeini er mwyn peri inni feddwl …' Felly polareiddio barn nid cymodi.

Pennod hir ond dreiddgar yw un yr awdur, golygydd ac academydd, Jane Aaron, 'Y Nofelydd Gwleidyddol' lle mae'n dadlau bod nofelau Gareth yn cynnig darlun byw o hanes diweddar Cymru. 'Trwy ddefnyddio cymhwyster y nofel fel ffurf lenyddol,' medd hi, 'i fynd o dan wyneb ei chymeriadau, ac ymdreiddio'n ddwfn i'r gwrthdaro rhwng gwahanol agweddau o'i hymwybyddiaeth wleidyddol, fe roddodd inni ddarlun argyhoeddiadol o gymhlethdod Cymru'r ugeinfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar hugain.'

Ond roedd golygon Gareth yn lletach. Fel y dywed Wiliam Owen Roberts yn ei ysgrif yntau, 'Syniadau gwreiddiol yn sboncio,' ychydig o Gymry, os o gwbwl, oedd yn rhannu'r un byd-olwg ag e ond roedd agwedd

*parhad ar dudalen 17*

# CLWB RYGBI PONTYPRIDD

**Guto Davies**

"Lan a lawr, lan a lawr" – dyna oedd geiriau un o ganeuon poblogaidd Meic Stevens, geiriau allai ddisgrifio'n gymwys hynt tîm rygbi Pontypridd dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Mae canlyniad pob un gêm o bwys i Ponty wrth i'r frwydr i hawlio coron Uwchadran Admiral brofi i fod yn un hynod o gystadleuol. Mae tri chlwb wedi tynnu'n glir ar frig y tabl, sef Pontypridd, Beddau a Merthyr ac mae'n fwyfwy tebygol mai rhwng y tri hyn bydd yr ymryson i fod yn bencampwyr.



*Ponty yn herio Beddau ar Heol Sardis*

Roedd dwy gêm ddarbi leol enfawr gan Bontypridd dros wythnos y Nadolig, y ddwy gartref ar Heol Sardis, yn erbyn Ystrad Rhondda a Beddau. Ar ôl brwydrau digyfaddawd, Ponty wnaeth hawlio'r ddwy fuddugoliaeth, a hynny gyda phwyntiau bonws gwerthfawr. Curwyd Ystrad Rhondda o 36 pwynt i 20 ac yna Beddau o 36 pwynt i 33. Roedd torfeydd mawr i'r ddwy gêm, gyda'r dorf yn erbyn Beddau ar Ŵyl San Steffan yn agos at 6,000, y fwyaf a welwyd yn y stadiwm ers blynyddoedd.

Wedi'r holl gyffro dros y 'Dolig, daeth y siom o weld gornest gyntaf 2026 gartref yn erbyn Aberhonddu yn cael ei gohirio oherwydd y tywydd rhewllyd. Y penwythnos canlynol, teithiodd Pontypridd tua'r gorllewin i chwarae yn erbyn Arberth. Roedd rhestr hir o anafiadau ymysg y garfan ond doedd hynny fawr o esgus wedi perfformiad siomedig a cholled o 21 pwynt i 14, er i Bontypridd hawlio cyfran helaeth o'r meddiant a gwastraffu nifer o gyfleon i sgorio.

Yn ọl ar eu tomen eu hunain ganol mis Ionawr, sicrhaodd Ponty fuddugoliaeth fawr yn erbyn Llangennech o 40 pwynt i 12 i barhau ar frig yr Uwchadran ac i gadw'n fyw eu gobeithion o fod yn bencampwyr.

ryngwladol Gareth yn hanfodol, 'yn rhoi dehongliad neilltuol iddo o gyflwr y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg a'u lle yn y byd, gan fod ei fyfyrio a'i ddadansoddi yn digwydd o fewn fframwaith rhyngwladol, deallusol ag iddo ogwydd gwahanol i norm democratiaeth gymdeithasol, ryddfrydol Brydeinllyd/Gymreig.' Yn ôl Wiliam, hwn yw'r norm sy'n tanlinellu ein realiti ni o ddydd i ddydd a gofyn: 'A phwy yn y bôn sydd heb ei gyflyru?'

Yn y gyfrol gyfoethog hon, dadlennol yw cyfweliad cylchgrawn Barn yn 1992 pan gafodd Gareth ei holi am ei waith ac am ei ddaliadau gwleidyddol. Cwestiwn y golygydd, Menna Baines, oedd a oedd ei syniadau wedi newid o ganlyniad i gwymp dramatig Comiwnyddiaeth. Sylw iasol o gyfoes sy' yn ateb Gareth: 'Dwi wedi credu erioed fod y byd yn cael ei lywodraethu gan ymerodraeth ddieflig, mai ei phrifddinas hi yw Washington a bod ei phennaeth hi fel arfer yn bencampwr dweud celwydd y byd.'

**Cynhyrfwr**




*Clwb y Bont dan ei sang ar gyfer lansiad llyfr teyrnged Gareth Miles.*

# Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf

**Hwyl y Nadolig!**
Cafodd Blwyddyn 1 a 2 amser bendigedig yn gwylio Sioe Cyw ac aeth Blynyddoedd 3 i 6 i'r sinema ym mis Rhagfyr fel rhan o'n dathliadau. Daeth Siôn Corn a Mrs Corn i'n partïon ysgol hefyd i gael sgwrs a stori - diolch Ffrindiau Awel Taf am drefnu hyn.

**Mr Coleman**
Diolch i Mr Coleman a Doug am ddod i gynnal gwasanaeth ysgol gyfan am y Grawys. Fe wnaeth pawb fwynhau a dysgu am bwysigrwydd y Grawys.

**BSL - Iaith arwyddion**
Mae Blwyddyn 6 wedi dechrau cael gwersi BSL. Dysgodd pawb lawer ar ôl un sesiwn ac maent yn gyffrous i barhau gyda'r hyfforddiant.

**Urdd**
Ar Ddydd Gwener Ionawr 23ain fe wisgodd pawb ddillad coch, gwyn a gwyrdd i godi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Diolch i bawb am gefnogi.



*Siôn Corn yn yr ysgol*

**Blwyddyn 6 yng Nlan-llyn**
Ar fore oer iawn ar ddechrau mis Ionawr aeth criw mawr o flwyddyn 6 i wersyll yr Urdd Glan-llyn. Er gwaetha'r eira, y gwynt a'r glaw, cafodd pawb amser arbennig yn cael hwyl a dysgu sgiliau newydd. Diolch Mrs Cotter a Miss Davies am ofalu am bawb.

**Chwaraeon**
Diolch i Ysgol Melin Gruffydd am ddod i Ysgol Awel Taf ar gyfer gemau rygbi a phêl-rwyd Blwyddyn 5 a 6.



*Disgyblion blwyddyn 6 yn yr eira yng Nglan-llyn*



*Mrs Corn yn yr ysgol*

## PONTYPRIDD

**Gohebydd Misol:**
**Jayne Rees**
j.rees2012@btinternet.com

**Merched y Wawr**
Diolch o galon i Huw Davies am sgwrs mor ddiddorol am Clara Thomas – un o fenywod mwyaf cyfoethog Cymru ar un adeg ac yn ffilanthropydd. Roedd yn fenyw o flaen ei hamser. Roedd ganddi gysylltiadau â Phontypridd gan gyfrannu at adeiladu Eglwys San Catherine a Chlwb Gelliwastad. Mae Huw wedi gwneud cryn dipyn o ymchwil amdani.

Yn dilyn rhybudd o eira, gohiriwyd cyfarfod mis Ionawr. Yn ffodus, fe fydd Côr Dysgwyr y Cymoedd yn gallu bod gyda ni nos Iau Chwefror 12fed am 7.30 yn y Llofft yn Clwb y Bont.

**Babis Newydd**
Croeso mawr i Anna Meinir, plentyn cyntaf i Bethan (Walkling, gynt o Bontypridd) a Ianto Phillips, Caerdydd. Wyres fach gyntaf i'r ddau deulu.

*parhad ar dudalen 19*

## Pontypridd
(parhad)

**Llongyfarchiadau!**

Mae Elan Marged yn falch o groesawu ei chwaer newydd Cadi Fflur. Merch fach i Gethin Harkin (gynt o Graigwen) a'i wraig Bethan. Maen nhw'n byw ym Mhorthyrhyd. Newyddion ardderchog!

**Clwb Llyfrau**

Cafwyd sgwrs ddiddorol mis Ionawr wrth drafod nofel Saesneg ddiweddara Caryl Lewis, sef 'Bitter Honey'.Y farn yn gyffredinol oedd bod hon yn sicr yn werth ei darllen.

Cyfarfod nesaf yn Llyfrgell Pontypridd fore Mercher, Chwefror 18fed am 10.30am.

**Brysiwch Wella**

Croeso nôl adref i Derrick Ebbsworth, Graigwen ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty. Mae Margaret a'r teulu oll yn falch eich bod yn ddigon da erbyn hyn i fod yn ôl yn Fronheulog.

**Colledion**

Cafwyd ergyd drom i sawl teulu a ffrindiau yn yr ardal yn ystod mis Rhagfyr.

Ein cydymdeimlad â Wil Morus Jones. Bu farw ei nai, Iwan Gwyn Parry. Roedd Iwan yn arlunydd adnabyddus.

Yn sydyn, ar ôl salwch byr, bu farw Owain Llywelyn, Caerdydd. Buodd Owain yn byw yn Graigwen am nifer o flynyddoedd. Yn meddwl amdanoch chi fel teulu yn eich colled.

Fe ddaeth y newyddion trasig adeg y Nadolig am farwolaeth sydyn Gwilym Ioan, babi bach Wil Rees a'i bartner Brooke.

Ein cydymdeimlad dwysaf.

Gohebwyr mis Mawrth
Siân a Mike Ebbsworth



## Pwy wyt ti? Francis Hunt

### Cyflwyna dy hun mewn pum brawddeg?

Francis Hunt ydw i. Dyma rai o fy hoff bethau: cwrdd â phobl, cerdded, rhedeg, bwyta mas, bwyta mewn, yfed te a choffi, darllen, gwylio ffilmiau, chwarae gemau, canu, canu'r ffidl, jyglo, chwedleua, gwneud triciau cardiau, gwneud mathemateg. Dw i'n falch o fod yn briod â Rosa, gweinidog Tabernacl Caerdydd. Dw i'n falch hefyd o'n meibion a'n hwyres gyntaf, Emily Jennifer, sy'n byw yn Munich ac sy'n dri mis oed. Dw i'n gweithio i Raglen Gymorth Mathemateg Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i argyhoeddi plant y gall mathemateg fod yn ddefnyddiol ac yn hwyl – gwaith efengylwr.

**Sut wyt ti wedi dysgu Cymraeg?**

Dechreuais i ddysgu Cymraeg yn 2006, pan gyrhaeddon ni Gymru, ond mae wedi bod yn daith droellog. Dw i wedi stopio ac ailddechrau o leiaf ddwywaith. Dw i'n ddiolchgar i'r holl diwtoriaid brwdfrydig ac amyneddgar yn Dysgu Cymraeg Morgannwg a fy nghyd-ddysgwyr. Dw i wedi elwa o bartner cynllun Siarad rhagorol a'r siaradwyr Cymraeg yng Nghapel Salem, yn enwedig y dyn ar y dechrau a ddysgodd i mi ddweud y 23ain Salm. Yn y gwaith, dw i wedi gwirfoddoli i wneud pethau yn Gymraeg y tu allan i'm "parth cysur", ac mae'r siaradwyr Cymraeg wedi bod yn gymwynasgar ac yn galonogol bob amser. Dw i'n gwrando ar y radio, darllen llyfrau a gwylio dramâu, a rhaid dweud bod sefyll arholiadau yn help i mi hefyd – maen nhw'n fy ngorfodi i weithio ar fy Nghymraeg.

**Ble rwyt ti'n cael cyfle i ddefnyddio dy Gymraeg yn yr ardal?**

Dw i'n siarad Cymraeg yng Nghapel Salem Ton-teg bob wythnos, ac weithiau gyda phobl Tabernacl Efail Isaf neu Tabernacl Caerdydd. Dw i wedi mwynhau cyngherddau a dramâu yng Ngarth Olwg, Clwb y Bont, YMa, a'r Hen Lyfrgell yPorth.



*Francis gyda Emily Jennifer, ei wyres.*

Dw i'n mwynhau canu yn Gymraeg yn Nghôr Dysgwyr y Cymoedd (ond efallai y dylai ei enw fod yn Gôr Cantorion Newydd y Cymoedd nawr?)

**A ble arall bydd pobl yn ffeindio Francis Hunt yn yr ardal, e.e. caffis, siopau?**

Yn aml yng Nghapel Salem, weithiau yn y caffi yng Ngarth Olwg, ac o bryd i'w gilydd yn rhedeg ar lwybr y gymuned wrth ymyl y ffordd osgoi.

Os byddwch chi'n gweld Francis yn yr ardal, cofiwch ddweud 'helô' a chael sgwrs.

Dydd Sadwrn 4 Gorffennaf 2026

Capel y Bont, Ffordd Gelliwastad, Pontypridd

**Eisteddfoddd Pontypridd: Rhestr Testunau 2026**
**Testunau Gwaith Cartref - Dyddiad Cau 23 Mai**

## Adran Lenyddiaeth

**Cynradd**

Derbyn a Blwyddyn 1 - tynnu llun ac ysgrifennu pennill cyntaf **Mi welais Jac y Do**

Blwyddyn 2 - ysgrifennu darn o ryddiaith yn dechrau gyda'r geiriau **Un bore Sadwrn…**

Blynyddoedd 3 a 4 - ysgrifennu darn o ryddiaith ar y testun **Ar goll**

Blynyddoedd 5 a 6 - ysgrifennu darn o ryddiaith ar y testun **Ar goll**

**Uwchradd**

Blynyddoedd 7, 8 a 9 - ysgrifennu darn o ryddiaith yn seiliedig ar un o'r idiomau canlynol: **Canu'n iach, Mynd dros ben llestri, Dyfal donc a dyr y garreg**

Blynyddoedd 10 ac 11 - ysgrifennu darn o ryddiaith ar un o'r testunau canlynol : **Y drwg yn y caws, Swn y gwynt yn chwythu, Adfail**

Blynyddoedd 12 a 13 - darn o ryddiaith agored

Cystadleuaeth llunio limrig o dan 18 yn dechrau neu'n gorffen gyda'r llinell:
**Un diwrnod pan es draw i Bonty**

**Gwobr yr Ifanc** i'r darn rhyddiaith gorau gan ddisgyblion oed uwchradd

**Oedolion**

Y Gadair- Cerdd gaeth neu rydd hyd at 100 o linellau ar y testun **Breuddwyd / Breuddwydion**

Triban Morgannwg - **Hel Meddyliau**

Englyn - **Pont**

Limrig yn dechrau neu'n gorffen gyda **Wrth nofio'n y Lido un diwrnod**

Stori fer hyd at 2000 o eiriau. Y stori fuddugol i'w chyhoeddi yn **Tafod Elái**

Erthygl addas i'w chyhoeddi yn **Tafod Elái**

## Adran Gelf

**Ffotograffiaeth (agored i bob oed)**
Testun: **Beth yw Cymru i fi?**
Y dasg: Archwilio beth mae Cymru yn golygu i chi, neu eich perthynas â Chymru.
Amcanion: Defnyddio elfennau eiconig Cymraeg.
Cyflwynwch un neu ddau lun du a gwyn neu liw.

**Graffeg (agored i bob oed)**
Testun: **Dyluniwch grys t modern sy'n hyrwyddo Eisteddfod Pontypridd.**
Y dasg: Edrych ar grysau t llwydiannus a dathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant mewn ffordd gyfoes.
Amcanion: Archwilio egwyddorion graffeg - cynllun, lliw, teipograffeg.

**Logo Tafod Elai (agored i bob oed)**
Testun: Dylunio logo newydd i bapur bro **Tafod Elái**.
Y dasg: Edrych ar logos llwyddiannus.
Amcanion: Cynllunio syniad hygyrch, gyda chyferbyniad uchel a ffont clir.

## Adran y Dysgwyr

**Cystadlaethau ysgrifennu ar gyfer dysgwyr**

**Lefel Mynediad:**
Tua 100 o eiriau, **Sgwrs mewn ystafell aros**

**Lefel Sylfaen:**
Tua 150 o eiriau, **Gwyliau i'w cofio**

**Lefel Canolradd:**
Tua 200 o eiriau, **Llythyr yn cwyno**

**Lefel Uwch/Gloywi:**
Tua 300 o eiriau,
**Erthygl ar gyfer Gwefan Fro neu Bapur Bro**